



Papur Gwybodaeth Manwl

Adolygiad dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o gymdeithasau tai yn Lloegr Hydref 2015

Cefndir

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn asesu cyrff a thrafodion yn erbyn rheolau rhyngwladol i benderfynu sut y dylent gael eu trin yn y Cyfrifon Cenedlaethol. Mae angen i'r categoreiddiad o endidau economaidd a'u gwariannau perthnasol gydymffurfio gyda system ddosbarthiad ONS ac yn ei dro y system Ewropeaidd o gyfrifon (ESA) a system ehangach cyfrifon cenedlaethol (e.e. gyda'r IMF, OECD, y Cenhedloedd Unedig a Banc y Byd).

O bryd i'w gilydd, mae'r ONS yn cynnal "adolygiadau dosbarthu" o wahanol gyrff a thrafodion o fewn yr economi. Cynhaliodd yr ONS adolygiad o Ddarparwyr Cofrestredig Preifat tai cymdeithasol yn Lloegr yn 2003. Nododd yr ONS y daeth nifer o fesurau rheoli newydd gan y llywodraeth i rym ers hynny, yn bennaf drwy Ddeddf Adfywio Tai 2008 a Deddf Lleoliaeth 2011, yn ogystal â chyflwyno'r rheolau ESA ar ddarparwyr tai cymdeithasol a ddaeth i rym yn 2010.

Ym mis Gorffennaf, yn dilyn sylw yn y cyfryngau a thrafodaethau dilynol gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi, **penderfynodd yr ONS ddechrau ar adolygiad ystadegol o "ddarparwyr Cofrestredig Preifat" tai cymdeithasol (yn cynnwys cymdeithasau tai cofrestredig) yn Lloegr.** Diben yr adolygiad oedd cadarnhau eu bod yn cofnodi cymdeithasau yn gywir ar hyn o bryd i gael sylfaen gadarn cyn deddfwriaeth arfaethedig. Felly i fod yn glir, **mae hwn yn adolygiad sylfaen o'r sector fel y saif heddiw ar gefn newidiadau deddfwriaethol a wnaed ers yr adolygiad olaf yn 2003 a chyn y ddeddfwriaeth arfaethedig.** Mae'r ONS wedi nodi y byddai effaith y newidiadau ar "agregau cyllidol" (megis benthyca sector cyhoeddus a dyled net) yn "fawr" a'r effaith ar y Cyfrifon Cenedlaethol yn "fach".

Gallai'r ONS ddewis cynnal adolygiad arall o'r sector yn dilyn cyflwyno deddfwriaeth arfaethedig (er enghraifft y Bil Diwygio Lles a Gwaith a Bil Tai cyfredol) er nad ydynt wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus i wneud hynny. Mae mwy o gefndir ar y system a'r broses ddosbarthu ar gael yma: <http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/classifications/na-classifications/the-ons-classification-process/index.html>

Dosbarthwyd cymdeithasau tai yn Lloegr ar gyfer dibenion y cyfrifon cenedlaethol fel "Corfforaethau Anariannol Preifat". Gall yr adolygiad gadarnhau'r statws yma neu gallai newid y statws, er enghraifft, drwy aiddosbarthu'r sector fel "cyhoeddus" neu "marchnad". Mae hefyd yn bosibl y gallant gyhoeddi adolygiad mwy eang o gymdeithasau.



Y prawf allweddol a ddefnyddir i benderfynu os yw corff yn un cyhoeddus neu breifat yw:

“... a yw'r llywodraeth yn gweithredu rheolaeth sylweddol dros bolisi corfforaethol cyffredinol yr uned? Mae canllawiau rhyngwladol yn diffinio rheolaeth fel y gallu i benderfynu ar bolisi corfforaethol cyffredinol, a gellir gweithredu hyn drwy benodi cyfarwyddwyr, rheoli dros hanner pŵer pleidleisio cyfranddalwyr, drwy ddeddfwriaeth arbennig, dyfarniad neu reoleiddiad”.

Y Penderfyniad

Am 9.30am fore heddiw (30 Hydref) cyhoeddodd yr ONS y cafodd Darparwyr Cofrestredig Preifat eu hailddosbarthu o fod yn 'Gorfforaethau An-ariannol Preifat' i fod yn 'Gorfforaethau An-ariannol Cyhoeddus'. Mae'r penderfyniad yn weithredol o'r dyddiad y daeth Deddf Adfywio Tai (HRA) 2008 i rym. Mae Cyllid Sector Cyhoeddus yn anelu gweithredu'r ailddosbarthiad yn gynnar yn 2016.

Daeth yr ONS i'r casgliad o'u hymchwiliadau bod Darparwyr Cofrestredig Preifat yn amodol ar reolaeth sector cyhoeddus yn unol â'r dangosyddion rheolaeth a nodir mewn rheolau cyfrifeg rhesymol. Mae'r rhesymau am hyn yn cynnwys:

1. Pwerau caniatáu'r Llywodraeth dros, a'r pŵer i osod amodau ar, waredion asedau tai cymdeithasol (a weithredir drwy'r HCA dan adran 17-2-178 HRA 2008)
2. Pwerau'r Llywodraeth i gyfeirio defnydd trafodion gwaredion (a weithredir drwy'r HCA dan adrannau 177-178 HRA 2008)
3. Pwerau caniatâd y Llywodraeth dros waredion stoc tai yn dilyn dadgofrestru darparydd cofrestredig gyda'r HCA (a weithredir drwy'r HCA dan adran 186 HRA 2008)
4. Pwerau caniatâd y Llywodraeth dros ddirwyn i ben gwirfoddol, diddymu ac ailstrwythuro darparydd cofrestredig (gweithredir drwy'r HCA dan adran 160-166 HRA 2008)
5. Pwerau'r Llywodraeth dros reolaeth darparydd cofrestredig, yn neilltuoel bŵer yr HCA i benodi rheolwyr a swyddogion i'r darparydd (gweithredir drwy'r HCA dan adrannau 151-157, 246-252, 261(3) a 269 HRA 2008)

Mae mwy o wybodaeth ar gael yma (<http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-391244#tab-all-tables>), ond mae penderfyniad yr ONS yn bennaf wedi ystyried newidiadau a wnaed yn y Ddeddf Adfywio Tai a Deddf Lleoliaeth 2011; nid oes unrhyw gyfeiriad at newidiadau diweddar ym mholisi'r Llywodraeth, megis yr Hawl i Brynu, 'Tal i Aros' neu'r gostyngiad rent.

Bu'r ONS yn glir mai i gymdeithasau tai Lloegr yn unig y mae'r penderfyniad hwn yn weithredol.



Goblygiadau'r penderfyniad

Mae'r penderfyniad yn golygu y cafodd trafodion, gwariant a dyledion Darparwyr Cofrestredig Preifat Lloegr eu hailddosbarthu o fewn Cyllid Sector Cyhoeddus. Mae Cyllid Sector Cyhoeddus yn anelu i weithredu'r ailddosbarthiad yn gynnar yn 2016, cyn cyhoeddiad y Gyllideb. Caiff ffigurau Cyflogaeth Sector Cyhoeddus hefyd eu haddasu yn gynnar yn 2016, gan roi cydnabyddiaeth i'r effaith ar Gyfrifon Cenedlaethol a wnaed yn Llyfr Glas yr ONS yn 2017.

Gall Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddewis gweithredu deddfwriaeth a/neu newidiadau arall i drin unrhyw un o'r mesurau deddfwriaethol neu reoleiddiol penodol y gwnaeth yr ONS eu dynodi a fyddai'n dilyn yr ailddosbarthiad. Byddai adolygiad ONS pellach ar gefn newidiadau o'r fath wedyn yn ailddosbarthu cymdeithasau yn ôl o gyhoeddus i breifat.

Mae amcangyfrifon dechreuol gan yr ONS yn awgrymu y bydd yr ailddosbarthiad yn ychwanegu £60bn at y Ddyled Genedlaethol; mae'r Ffederasiwn Tai Cenedlaethol yn amcangyfrif £63bn - cynnydd o tua 4% ar y ddyled genedlaethol gyfredol. Byddai unrhyw fenthycia ychwanegol gan gymdeithasau Lloegr yn arwain at gynnydd ym menthycia'r sector cyhoeddus. Gall rheolau cyfrifeg cyhoeddus hefyd osod cyfyngiadau ar ddefnydd gwargedion, fel y gwelwyd yn ailddosbarthiad Colegau'r Alban.

Bydd yr ONS yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r cyfrifon cenedlaethol 'cyn gynted ag sydd modd'. Fel gydag ailddosbarthiadau blaenorol, gall gymryd peth amser i roi hyn ar waith yn ymarferol.

Ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Mae Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi'r datganiad dilynol:

"Mae'r mater ystadegol yma'n cyfeirio at newid deddfwriaethol hanesyddol, a wnaed gan Lywodraeth flaenorol, a ddaeth i rym dros wyth mlynedd yn ôl ac nid yw'n gwneud unrhyw wahaniaeth o gwbl i'r ffordd y mae cymdeithasau tai yn rhedeg eu hunain ac nid yw'n gosod unrhyw fesurau rheoli neu reolau newydd.

"Byddwn yn cyflwyno mesurau sy'n ceisio caniatáu i gymdeithasau tai ddod yn gyrrff sector preifat cyn gynted ag sy'n bosibl."

Y Camau Nesaf

Rydym yn gweithio gyda'r cyrff cynrychioli yn y gwledydd datganoledig eraill i gyhoeddi ymateb ar y cyd i gyhoeddiad heddiw.

Fel mater o fwy o frys, rydym hefyd yn ysgrifennu at Lesley Griffiths AC, Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a Jane Hutt AC, Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, i geisio sicrwydd y byddant yn gweithredu i sicrhau na chawn ein dal mewn unrhyw adolygiad posibl yn y dyfodol gan yr ONS.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch ag Aaron Hill, Rheolydd Materion Cyhoeddus ar aaron-hill@chcymru.org.uk neu 029 2067 4820.